


## Y Mis Hwn Ar Y Safle

**Hydref 2025**

**Annwyl Gymydog,**
Croeso i'ch pedwerydd diweddariad adeiladu gan y tîm yn *Willmott Dixon Construction*!

Ers ein llythyr diwethaf ddechrau mis Medi, rydym wedi cyrraedd cam cyffrous: mae'r llawr concrit ar gyfer yr ysgol newydd bellach wedi'i gwblhau. Mae hyn yn golygu y gallwch ddechrau gweld cynllun yr adeilad yn cymryd siâp a chael synnwyr o'i faint.

Rydym hefyd wedi bod yn brysur gyda gwaith draenio a pharatoi'r tir i sicrhau bod modd codi'r sgaffaldiau yn ddiogel o ddechrau mis Hydref. Yn ogystal, mae gwaith bricsio bellach wedi dechrau ar y safle. Rydym yn falch o'ch hysbysu bod y gwaith hwn yn cael ei wneud gan *Falcon Construction*, cwmni gwaith bricsio lleol, a fydd yn gweithio gyda ni tan fis Ebrill.

## Edrych Ymlaen

Bydd gwaith codi'r strwythur ffrâm bren yn dechrau tuag at ddiwedd y mis.

Isod, rydym wedi cynnwys mwy o luniau o'r cynnydd a dynnwyd gan drôn, yn dangos y golygfeydd 'Cyn' ac 'Ar ôl' yr arllwysiad concrit diweddar.

Cadwch lygad allan yn y dyfodol am ragor o luniau drôn!





## Get in touch:



**Uwch Reolwr Adeiladu**
**James Hanwell**
james.hanwell@willmottdixon.co.uk



**Reolwr Adeiladu**
**John Coalter**
john.coalter@willmottdixon.co.uk



**Reolwr Cynorthwyol Adeiladu**
**Antony Rees**
Antony.Rees@willmottdixon.co.uk

**Argyfwng y Tu Allan i Oriau**
**0845 7335533 / 07976136349**

Her Ysgolion Cynaliadwy / Sustainable Schools Challenge
Llywodraeth Cymru / Welsh Government
Rhondda Cynon Taf

**Rydym yn Gwerthfawrogi Eich Adborth**
Am Unrhyw Gwynion neu Ganmoliaeth Cysylltwch â'r Personél Uchod Neu Ein Swyddfa Willmott Dixon yng Nghaerdydd:
**Global Reach (Wing A) Celtic Gateway Dunleavy Drive, Cardiff, CF11 0SN T: 029 2022 1002 F: 029 2038 8206**

Gwefan Willmott Dixon

Sianel YouTube Fern Criw




## Yn Y Gymuned

Rydym wedi mwynhau'n fawr cael mynd allan i'r gymuned leol dros yr wythnosau diwethaf. Yn nigwyddiad *Gwyl Haf Glyncoch*, cawsom y cyfle i gwrdd â llawer ohonoch, rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith adeiladu, a chynnal her STEM hwyliog i'r plant. Roedd yn ddiwrnod bendigedig gyda thywydd braf, ac roedd yn wych clywed eich barn am y prosiect.







Rydym hefyd yn gyffrous i gyflwyno aelodau newydd *Criw Fern YouTubers*! Maen nhw wedi ffilmio eu pennod gyntaf, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf a gwybodaeth fewnol uniongyrchol o'r safle i chi. Bydd y fideo'n mynd yn fyw yr wythnos nesaf, felly cadwch lygad amdano. Gallwch ddefnyddio'r côd QR ar y gwaelod dde i fynd yn syth i'w sianel.




